Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

20 Medi 2017

Annwyl Kirsty,

Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arwain

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r Pwyllgor yn cynnal Ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon. Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth ychwanegol yn ddiweddar yn ymwneud yn benodol â'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arwain, gan gynnwys sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Athro Mick Waters a'r consortia addysg rhanbarthol.

Mae'r Pwyllgor wrthi'n ystyried y dystiolaeth a gafwyd, ac yn gobeithio cyhoeddi adroddiad ar ein canfyddiadau yn ystod tymor yr hydref. Hoffai'r Pwyllgor gael rhywfaint o wybodaeth ychwanegol gennych ynglŷn â'r safonau proffesiynol newydd yn benodol, fel y nodir isod, er mwyn helpu i lywio ei drafodaethau.

Ar 6 Gorffennaf 2015, penderfynodd Cabinet Llywodraeth Cymru y byddai'n symud tuag at gynyddu pwerau Cyngor y Gweithlu Addysg, gan gynnwys y posibilrwydd o roi pwerau iddo ym maes 'gwella safonau'. Mae'r Pwyllgor yn nodi na wnaed hynny, a chafodd dull gweithredu gwahanol ei fabwysiadu yn y pen draw. A allwch roi manylion ynglŷn â pham na ddilynwyd y cyfeiriad a bennwyd yn 2015, gan gynnwys y rhesymau am hyn?

Yn eich tystiolaeth flaenorol i'r Pwyllgor, gwnaethoch gadarnhau nad oeddech wedi cefnu'n llwyr ar y syniad o roi'r cyfrifoldeb am y safonau i Gyngor y Gweithlu Addysg, ond nid yw'n glir i'r Pwyllgor sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i Gyngor y Gweithlu Addysg ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech egluro beth yw'r sefyllfa.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu hefyd fod y dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod bwlch mawr rhwng y weledigaeth lefel uchel ar gyfer y safonau newydd a'r systemau ymarferol sydd yn eu lle i roi'r safonau ar waith. A allwch gadarnhau pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y sector yn barod am y safonau proffesiynol newydd hyn, ac yn eu mabwysiadu a'u defnyddio?

Yn olaf, a allwch gadarnhau sut y bydd y safonau hyn yn esblygu dros amser, er mwyn ymateb i'r arfer gorau sy'n dod i'r amlwg?

Mae adroddiad y Pwyllgor yn debygol o dynnu sylw at y pryderon hyn, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn diwedd mis Medi 2017, fel y gallwn gynnwys y manylion wrth gyflwyno ein canfyddiadau.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd